Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Cynllun Llesiant Lleol - Diweddariad

Caeodd yr ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol ar 22 Ionawr 2018. Cawsom adborth gwerthfawr i'r ymgynghoriad - felly diolch i bawb a dreuliodd amser yn rhannu eich barn!

Cynhaliwyd cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych ddiwedd mis Ionawr i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd ac ystyried sut y gall sefydliadau gydweithio er mwyn cael effaith ar lesiant yr ardal. O ganlyniad, bu i'r BGC resymoli nifer y blaenoriaethau yn ôl y gwerth mwyaf. Y blaenoriaethau y mae'r Bwrdd wedi penderfynu eu datblygu yw:

1. **Pobl** - Lles meddyliol da i rai o bob oed
2. **Cymuned** - Rhoi grym i gymunedau
3. **Lle** - Gwytnwch amgylcheddol

Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i 4 egwyddor ychwanegol sy'n cefnogi'r blaenoriaethau –

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thrin pawb yn gyfartal
- Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg
- Cefnogi'r gallu i gael llety addas
- Osgoi dyblygu



Mae'r Cynllun Llesiant Lleol wrthi'n cael ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo i fwrdd gweithredol yr aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, gyda chymeradwyaeth derfynol o'r cynllun ym mis Ebrill 2018. Pan fydd y Cynllun Llesiant Lleol a'r blaenoriaethau wedi'u cymeradwyo yn ffurfiol, bydd y BGC yn gweithio ar ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn.

Gallwch weld y Cynllun Llesiant diwygiedig yma